Bu cynrychiolwyr CCGC yn gysylltiedig â dros **20** o weithgorau a mecanweithiau cynllunio ar y cyd i hybu buddiannau'r sector - gan gynnwys gweithgor strategaethau cymunedol Llywodraeth Cynulliad Cymru, grwp gorchwyl a gorffen datblygu cyfundrefnol y GIG, a grwp adolygu cyllid buddiolwyr ELWa.

CREST Co-operative (Enfys)





Prosiect fferm gymunedol a chrochendy Tyddyn Môn, Ynys Môn (Enlys a Chynllun Rîg Gymunedol)

Ymchwil CCGC - Goleuo polisi ac arferion

Mae data CCGC yn sail i lawer o'n gwaith polisi a lobbio. Rydym wedi parhau i fonitro cyflwr y sector gwirfoddol, gan amcangyfrif bod cyfanswm incwm

y sector yn £630 miliwn, gyda 22,900 o bobl yn cael eu cyflogi ac 1.12 miliwn yn gwirfoddoli. Mae'r ffigurau hyn, ynghyd â llawer o rai eraill, i'w gweld yn *Almanac 2003*.

Fodd bynnag, mae cyflwr y sector yn golygu mwy na dim ond ffigurau, fel a welwyd yn ein hadroddiadau ar effaith

mudiadau gwirfoddol, a luniwyd mewn cydweithrediad â'n cyrff cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Cyhoeddwyd *Measuring Impact - a guide to resources* ar y cyd gyda'n cyrff cyfatebol ac fe'i dosbarthwyd yn eang. Bu CCGC yn cydweithredu hefyd gyda Selyddiad Hyfforddi Cenedlaethol y Sector Gwirfoddol i baratoi arolwg DU gyfan i anghenion sgiliau gweithlu cyflogedig y sector gwirfoddol, a ffrwyth y gwaith hwnnw oedd *Futureskills 2003*.



2 Cefnogaeth trwy wasanaethau

Mae cefnogi'r sector gwirfoddol a chymunedol trwy ddarparu gwasanaethau ymarferol yn un o brif dasgau CCGC.

"Diolch yn fawr am eich ebost ac am glirio'r sefyllfa TAW i fyny. Mae'n rhaid ei fod wedi cymryd tipyn o'ch amser a rwyf yn ddiolchgar iawn i chi. Mae wedi bod o gymorth enfawr i mi."

IRIS COLDREY, EGLWYS/CANOLFAN GYMUNEDOL OUR LADY & ST MICHAEL'S, Y FENNI

Prif gyflawniadau

Eleni:

- Atebwyd **13,500** o ymholiadau, a derbyniwyd **8,700** ohonynt trwy'r Lein Gymorth.
- Trefnwyd 86 o gyrisiau i dros **1,000** o bobl.
- Darparwyd newyddion, gwybodaeth, canllawiau, contractau ayb trwy wefan rhyngweithiol newydd www.cggc.org.uk, trwy **230,800** o ymweliadau â'r safle'n flynyddol
- Cyhoeddwyd **22** rhifyn o Rhwydwaith Cymru, a **23** rhifyn o e-friff electronig CCGC
- Rhoddwyd cymorth i dros **150** o fudiadau gwirfoddol a chymunedol i wneud cais a sicrhau **£40.5m** o nawdd Ewropeidd
- Dyfamwyd **£1.7m** o nawdd Ewropeidd yn uniongyrchol i **123** o fudiadau trwy'r Gronfa Risg Gymdeithasol.
- Darparwyd lle i **1,224** o Wirfoddolwyr y Mileniwm ychwanegol.
- Negodwyd gwasanaethau brocer, gan gynnwys gostyngiadau ar feddalwedd cyfrifiadu, yswiriant a gwasanaethau telecom, ac mae bron i **400** o fudiadau wedi elwa ar hyn.
- Cynyddwyd ein haelodaeth 15 y cant i dros **950**

"Diolch am eich ymateb prydlon a chlir!"

CLIVE CURTIS, CANOLFAN GWASANAETHAU GWIRFODDOL Y FRO

Prosiect calendr haul a lleuad, Bro Morgannwg (Chi a'ch cymuned)





O'r corun i'r sawdl - gwisgoedd arbennig i blant
ar gyfer canollan dysgu am oes, Brynateg, Wrecsam
(Chi a'ch cymuned)

Hyfforddi, datblygu... a thipyn o hwyl hefyd!

Yn ystod 2002 - 3 gwelwyd cynnydd sylweddol yn yr hyfforddiant a ddarparwyd gan CCGC. Bu mwy o gyrsiau yn ymddrin â mwy o bynciau ledled Cymru gan helpu i gwrrd â'r galw cynyddol o blith y sector gwirfoddol. Roedd y cyrsiau'n cynnig 'dysgu o ddifrifl mewn ffordd ysgafn', ac roedd 95 y cant o'r cyfranogwyr yn eu disgrifio fel bod yn dda iawn/arlderchog.



Cynhaliwyd **86** o gyrsiau, gyda **1,035** o bobl yn eu mynychu (cynnydd o 150 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn gynt). Mae hyfforddi'n datblygu i fod yn farchnad gystadleuol iawn a gwelwyd gwelliant yn yr ymgyrch hyrwyddo trwy gyhoeddi llyfryn hyfforddi chwe misol yn hytrach na phoster blynyddol. Roedd y cyrsiau'n amrywio o godi anian

corfforaethol i gydraddoldeb ac ymwybyddiaeth o amrywiaeth ac fe'u cynhaliwyd mewn lleoliadau ym mhob rhan o Gymru. Cynigiwyd cyfres newydd o *Adeiladu ein cymunedau* a buont yn boblogaidd iawn gyda'r cyfranogwyr.

Parhau i ffynnu mae'r cynlluniau partneriaeth, gan ganolbwyntio ar ddatblygu cysylltiadau a sgiliau cyfathrebu, *Yr Ymddiriedolaeth Cyfryngau*, a hybu cyfranogaeth gyhoeddus, *Cyfranogaeth Cymru*.

Mae Cyfranogaeth Cymru'n helpu pobl i ddatblygu'r wybodaeth a sgiliau sydd eu hagen ar gyfer cyfranogaeth gyhoeddus ystyrion, gan gynnwys ymgyngori, cynllunio cymunedol, gweithio mewn partneriaeth a chynhwysiant

cymdeithasol. Mynychwyd dros **40** o ddigwyddiadau ledled Cymru gan **492** o bobl.

Mae'r Ymddiriedolaeth Cyfryngau'n parhau i ddarparu hyfforddiant a chyngor ar gyfathrebu trwy annog gweithwyr proffesiynol yn y cyfryngau i roi o'u hamser, sgiliau ac adnoddau'n wirfoddol.

Cynhaliwyd **16** o weithdai a fynychwyd gan **192** o bobl.

Yn ogystal â'r amrywiaeth eang o gyrsiau hyfforddi, sefydlwyd prosiect peilot gan CCGC o'r enw *Manteision Mentora*, sy'n manteisio ar gyfoeth profiad a gwybodaeth rheolwyr o fewn y sector i gefnogi a helpu rheolwyr llai profiadol yn y sector. Hefyd datblygwyd cyfarpar i gynorthwyo mentoriaid o fewn y sector i ddatblygu eu sgiliau.



Er mwyn ceisio sicrhau safonau uwch mewn hyfforddiant a gwell agwedd tuag at ddatblygu unigolion a mudiadau, bu Sefydliad Hyfforddi Cenedlaethol y Sector Gwirfoddol (VSNTO) yn gweithio i ddatblygu safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC) yn benodol ar gyfer ymddiriedolwyr, rheolwyr gwirfoddolwyr a chodi arian. Roedd hefyd yn gyfrifol am gynhyrchu *How to become an investor in people - a guide for the voluntary sector*, sy'n disgrifio'r safon, sut mae'n gweithio a beth fydd manteision ei gyflawni i fudiadau gwirfoddol.

"Cawsom syniad da o'r broses a chawsom hefyd gyfle i rannu ein profiadau â phobl eraill"

CYNLLUNIO GRWPIAU A DATRYS PROBLEMAU

Robert Skupski, Ceir Slot Wrecsam,
(Chi a'ch cymuned)



Helpu'r sector

Mae gwasanaeth Lein Gymorth CGGC - 0870 607 1666 / help@wcva.org.uk - wedi ennill ei blwyf fel y prif wasanaeth gwybodaeth a chefnogaeth i'r sector yng Nghymru. Bu CGGC yn ymdrin â **13,000** o ymholiadau, gyda'r Lein Gymorth yn delio ag **8,700** ohonynt. Yn gyffredinol, gwelwyd cynnydd o **15** y cant yn nifer yr ymholiadau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac roedd yr e-friff pythefnosol mor boblogaidd ag erioed:

Bu Help CGGC yn darparu Lein Gymorth a gwasanaeth gwybodaeth hefyd i grwpiau sy'n gweithio mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf - 0800 587 8898 / ymholiadau@cymunedauyngyntaf.info Atebwyd bron i **3,000** o ymholiadau yn ystod y flwyddyn. Bu CGGC hefyd yn hwyluso'r gynhadledd flynyddol gyntaf ar gyfer Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf.

www.cggc.org.uk

Cafodd gwefan CGGC ei ailwampio a'i ail-lansio yn ystod y gynhadledd flynyddol. Mae'r wefan sy'n rhyngweithiol, chwiliadwy a hawdd i'w ddefnyddio, wedi ennill canmoliaeth o Gymru a thu hwnt. Mae'n cynnwys cyfoeth o wybodaeth ar bynciau sy'n amrywio o godi arian i Gyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol. Mae'r adran swyddi yn cynnig y wybodaeth ddiweddaraf am swyddi yn y sector, ac mae aelodau CGGC yn gallu postio manylion am swyddi gwag yn eu mudiad yn uniongyrchol. Mae cronfeydd data chwiliadwy yn cynnwys cyfeiriadur o fudiadau gwirfoddol cenedlaethol, a chronfa ddata o hyfforddwyr ac ymgyngorwyr.

Yn flynyddol, mae'r wefan yn denu **230,842** o ymwelwyr, gyda **1,273,386** o dudalennau unigol yn cael eu darllen a **10,332** o ddogfennau'n cael eu lawrlwytho.

**"Mae eich gwefan yn ddigon o ryfeddod!
Llongyfarchiadau."**

LYDIA WILSON, HERITAGE INFORMATION TRUST

"Dim ond gair i ddweud cymaint yr wyf yn gwerthfawrogi eich e-friffiadau! Nid oes mis yn mynd heibio heb i mi gopïo nifer o eitemau o wybodaeth. Daliwch ati gyda'r gwasanaeth ardderchog hwn sy'n cael ei werthfawrogi gan gymaint ohonom"

MICHAEL BUNNEY, GŴYL CEFN GWLAD



Enrico Carpanini, Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol CGGC a Harriet Harman, Cyfreithiwr Cyffredinol

Mae **prosiect gwasanaethau cyfreithiol** arbenigol CGGC wedi cael ei ehangu eleni, gyda chynnydd yn nifer yr ymholiadau ac yn eu cymhlethdod. Mae'r prosiect, sy'n gynllun ar y cyd rhwng CGGC a Chyngorau Gwirfoddol Sirol (CGS), wedi delio gyda dros **500** o ymholiadau mior amrywiol â chyfraith cyflogaeth, gweithio mewn partneriaeth, contractau, atebolrwydd ymddiriedolwyr a chyfansoddiadau. Mae Diweddariad cyfreithiol yn cael ei gynhyrchu er gwybodaeth staff CGS, ac mae papurau cefndir ac erthyglau sy'n ymddangos yn Rhwydwaith Cymru yn rhoi sylw i ddatblygiadau cyfreithiol sydd o ddi-ddordeb ehangach. Mae cwmpas strategol y gwasanaeth yn un o'i nodweddion pwysicaf a mwyaf llywyddiannus.

Ewrop

Nod gwaith CCGC Ewrop eleni fu cynyddu dylanwad ac effaith y sector ar raglenni Ewropeaidd yng Nghymru. Gwnaethpwyd hyn trwy weithredu a datblygu rhaglenni a phrosiectau sy'n cefnogi a chynyddu cyfraniad uniongyrchol y sector mewn rhaglenni Ewropeaidd.

Arweiniodd hyn at **154** o fudiadau cymunedol a gwirfoddol yn gwneud ceisiadau uniongyrchol ac yn derbyn **£40,571,098** o nawdd Ewropeaidd ar gyfer amrywiaeth eang o brosiectau. Mae'r sector gwirfoddol wedi llwyddo i sicrhau dros 10 y cant o gyfanswm y rhaglen Amcan 1.

Mae CCGC wedi gweithio i ddatblygu a gweithredu strwythur i gefnogi a hyrwyddo cyfraniad y sector mewn nawdd Ewropeaidd prif ffrwd. Yn ystod y flwyddyn mae CCGC Ewrop wedi:

- Dyrannu **£1,712,527** mewn grantiau i dros **123** o wahanol fudiadau trwy'r Cynllun Risg Gymdeithasol. Mae hwn yn gynllun grantiau bach sy'n darparu grantiau uniongyrchol hyd at £10,000 i grwpiau bach sydd ag incwm o dan £100,000.

- Parhau i weithio gyda CGSau i ddarparu nawdd - **£4,919,106** - i gyflogi

gweithwyr datblygu ychwanegol ym mhob CGS yng Nghymru.

- Parhau ei waith trwy Uned Cefnogi'r Sector Gwirfoddol gyda thim o ymgynghorwyr nawdd sy'n gweithio yn yr ardaloedd Amcan 1 i helpu mudiadau gwirfoddol sydd am wneud cais am nawdd Ewropeaidd. Mae'r uned wedi:

- Lansio gwefan - www.cggc.org/ewrop - sydd wedi derbyn dros **10,000** o ymweliadau unigol yn ei flwyddyn gyntaf gyda **500** o fudiadau bellach wedi cofrestru'n ffurfiol

- Rhoi **30** o gyflwyniadau a gweithdai mewn digwyddiadau a drefnwyd gan Bartneriaethau lleol a rhanbarthol

- Trefnu **70** o ddiwyddiadau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer y sector ledled yr ardal Amcan 1 gyda dros **500** o gyfranogwyr

- Ymateb i dros **2000** o ymholiadau ffôn ynghylch nawdd Ewropeaidd

- Cynhyrchu a dosbarthu **1,500** CD ROM rhyngweithiol at ddefnydd ymgeiswyr

- Sicrhau £9m ac arwain partneriaeth aml-asiantaeth sy'n gyfrifol am ddarparu Marchnad Lafur Ganolradd yng Ngogledd Cymru. Dros y 3 blynedd nesaf bydd y prosiect hwn yn darparu cyfleon gwaith go lawn i dros **900** o'r unigolion mwyaf difreintiedig o safbwynt gymdeithasol ac economaidd yng Ngogledd Cymru trwy gefnogaeth dros **20** o fentrau gymdeithasol.



Mentro Lluest
(Cynllun Risg Gymdeithasol)





Undeb Credyd Llandudno (Cynllun Rig Cymdeithasol)

Mae CGGC Ewrop hefyd yn cyfrannu at ddatblygiadau polisi yng Nghymru, Llundain a Brwsel yn y diwygiadau ôl 2006 i'r Gronfa Strwythurol:

- Gyda nawdd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chefnogaeth swyddfa Eluned Morgan ASE, cynhaliodd CGGC Golocwimw ar gyfer dros 30 o gynrychiolwyr yn y Senedd Ewropeaidd ym Mrwsel. Nod y digwyddiad oedd codi proffil y sector gwirfoddol a Chyrrif Anlywodraethol yng Nghymru, a thynnu sylw at y cyfraniad sylweddol

y gall ei wneud at y ddadl ehangach ar drefn lywodraethu a chymdeithas sifil.

- Bu'n gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Cynulliad Cenedlaethol i bwysio am bwyslais mwy Cymreig yng Nghynllun Gweithredu'r DU ar Gynhwysiant Cymdeithasol.
- Bu'n parhau i geisio mecanweithiau cyllido arloesol ac amgen ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru ar ôl 2006.



Undercurrent Foundation, Abertawe
(Cynllun Rig Cymdeithasol)

Gwirfoddoli

Thema'r llwyddyn oedd datblygu potensial a sgiliau rheolwyr gwirfoddolwyr, er mwyn gwneud gwirfoddoli'n brofiad mwy gwerth chwell a phlesurus. Bu grwpiau gwirfoddol yn cymryd rhan mewn cynllun peilot i gyflwyno safonau galwedigaethol newydd i reolwyr gwirfoddolwyr, tra bod cydweithwyr yn y pedair gwlad wedi cydweithio ar gynllun i ddatblygu nod barcud ansawdd Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr ar gyfer mudiadau sy'n defnyddio gwirfoddolwyr. Roedd cwrs achrededig newydd, Y Rheolwr Gwirfoddolwyr Effeithiol yn llwyddiant o'r cychwyn ac roedd gormod o bobl wedi gwneud cais i fynd arno o'r cychwyn cyntaf.

Yn y diwedd, gwelwyd ffrwyth yr holl ymgyrchu amyneddgar ar lefel Llundain a Chaerdydd ar fater y Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT) pan dderbyniodd Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol gynnis i sefydlu uned cofnodion troseddol ar gyfer y sector gwirfoddol wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Bydd Uned Cofnodion Troseddol CCGC, a fydd yn dechrau gweithio yn ystod Hydref 2003, yn gweithredu fel corff ymbarél cofrestredig ar gyfer y SCT, yn cynnig gwasanaeth profesiynol o safon uchel i alluogi'r sector gwirfoddol yng Nghymru i gael mynediad at y gwasanaeth datgelu.

Bydd yr Uned hefyd yn cynnig cyngor, gwybodaeth a hyfforddiant i fudiadau gwirfoddol ar sut i ddefnyddio'r gwasanaeth datgelu er mwyn lleihau'r risgiau i fudiadau sy'n gweithio â phlant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Y Fargen Newydd

Mae CCGC, gyda chymorth mudiadau sector gwirfoddol lleol, yn rheoli contract y Fargen Newydd yn llwyddiannus ar ran consortiwm mudiadau gwirfoddol Gogledd Cymru. Mae'r cynllun yn darparu ac yn cynorthwyo lleoliadau profiad gwaith o'u dewis i bobl ifanc 18 - 24 oed. Mae'r rhain wedi cynnwys nifer o opsiynau amrywiol o waith gweinyddol i weithio mewn sw.



Canolfan Ddawns Rubicon, Caerdydd
(Gwirfoddolwyr y Mileniwm)

Ymunodd **1,224** yn ychwanegol o bobl ifanc â'r Rhaglen Gwirfoddolwyr y Mileniwm, gan ddod â'r cyfanswm ar y rhaglen i **3,435**. Aeth pedwar cant ac wyth ar hugain ohonynt ymlaen i dderbyn tystysgrifau am gyflawni 100 awr o waith gwirfoddol, a derbyniodd 319 arall Wobrau Rhagoriaeth am gyrraedd 200 awr.

Derbyniwyd grant tair blynedd gan y Gronfa Gymunedol, i sicrhau bod y gwaith a gyflawnwyd yn ystod Blwyddyn Ryngwladol y Gwirfoddolwyr yn parhau o dan faner Wythnos y Gwirfoddolwyr, ynghyd â rhaglen hyfforddi a datblygu cyfleon i feithrin sgiliau mewn marchnata a recriwtio gwirfoddolwyr.

Hefyd enillodd CCGC contract i weithio mewn partneriaeth gyda 25 o fudiadau ar y Bartneriaeth Datblygu Cydraddoldeb mewn Cyflogadwydd ((DEEP) gyda'r WDA. Bydd hyn yn golygu gweithio gyda gwirfoddolwyr ar y cynllun Gwerthfawrogi Gwirfoddolwyr i ymchwilio i wahanol agweddau o wahaniaethu.

Mae **172** o hyfforddeion ar y cynllun eleni, ac mae dros **30** y cant ohonynt wedi llwyddo i gael gwaith tymor hir. Roedd y contract i fod i ddod i ben yn Ebrill 2003, ond mae Canolfan Byd Gwaith wedi ymestyn y contract tan ddiwedd Mawrth 2004, a bydd CCGC yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth yng Nghonwy, Gwynedd a Sir Ddinbych.

Aelodaeth

Heb amheuaeth, mae cryfder CGGC fel corff sy'n cynrychioli'r sector gwirfoddol yng Nghymru yn gorwedd yn ei aelodaeth amrywiol a ffyniannus. Eleni, mae'r aelodaeth wedi codi i **954** - yr uchaf erioed.

“Mae CGGC yn adnodd gwybodaeth heb ei ail”

CYMEITHAS TAI MORGANNWG/GWENT

Ein nod yw darparu gwasanaethau sy'n rhoi gwerth am arian, gan gynnwys gwybodaeth a chyngor, gostyngiadau ar gyrsiau hyfforddi, cynadleddau a chyhoeddiadau, a chyfle i fanteisio ar ostyngiadau ar wasanaethau a nwyddau a gynigir gan gyflenwyr allanol - er enghraifft meddalwedd cyfrifiaduwr a gwasanaethau telecom. Eleni, arbedodd aelodau dros **£45,000** ar wasanaethau diolch i'r gostyngiadau a gynigiwyd, tra bo dros **200** o fudiadau gwirfoddol wedi manteisio ar y cynllun yswiriant Encompass.

“Mae'r cyfle i fanteisio ar brisiau gostyngol ar galedwedd a meddalwedd cyfrifiaduwr wedi bod yn bwysig dros ben”

CANOLFAN ADNODDAU LLANIDLOES

“Mae Keegan a Pennykid wedi medru darparu y pecyn iawn i ni trwy'r cynllun yswiriant 'Encompass', a mae nhw wastad yn gefnogol iawn”

JOAN DOYLE, CANOLFAN FFORDD ABATY, BANGOR



Sbardun

Roedd Sbardun a'r sector gwirfoddol yng Nghymru yn dathlu eu 10fed ymddangosiad yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, ac un o uchafbwyntiau'r wythnos oedd dangos fideo newydd a gynhyrwyd i annog pobl i wirfoddoli a thynnu sylw at agoriadau gyrla yn y sector.

Mae'r fideo, *Gwneud Gwahaniaeth*, a gynhyrwyd gan y cwmni o Gaerdydd, Boomerang, ac a noddwyd gan Yrfa Cymru, Y Tim Gweithredu Swyddi a Sefydliad Lloyds TSB, yn canolbwyntio ar bwysigrwydd gwirfoddoli a'r boddhad sylweddol y gallwch ei gael o roi eich amser yn rhad ac am ddim.

Unwaith eto eleni, daeth oddeutu 15 mudiad i arddangos eu cynnyrch yn Sbardun, gan gynnal digwyddiadau, sesiynau hyfforddi a sesiynau codi ymwybyddiaeth. Roedd rhai mudiadau yn ymweld â ni am y tro cyntaf, eraill yn dychwelyd am y pumed neu'r chweched gwaith.

Wythnos brysur a byrlymus i bawb!



Yn ystod y flwyddyn, symudodd swyddfa CGGC yn y Canolfan o'r Trallwng i'r Drenewydd, er mwyn i ni allu medru ychwanegu at ein tim presennol o ymgynghorwyr a darparu ystafelloedd cyfarfod a chyfleusterau fideo-gynadledda.

CYSWLLT - â'r sector

Ar hyn o bryd mae CCGC yn rheoli pum prosiect Marchnad Lafur Ganolradd (MLG). Mae'r prosiectau hyn yn darparu hyfforddiant a phrofiad gwaith mewn ardaloedd gyda diweithdra uchel, ac maent yn cynnig cyfle unigryw i bobl sy'n arweithredol yn economaidd i gael cyfle i ymuno â byd gwaith. Maent wedi eu cynllunio'n arbennig i roi cyfle gwirioneddol i bobl sy'n wynebu anfantais ym mynd gwaith i gael swydd dymor hir a chynaliadwy.

Ers lansio'r prosiectau ym Mehefin 2001, mae **370** o bobl wedi bod yn rhan o'r cynllun, ac mae dros **63** y cant ohonynt wedi mynd ymlaen i gael gwaith tymor hir a chynaliadwy.

Mae'r holl brosiectau hyn yn derbyn nawdd Ewropeaidd a chefnogaeth nifer o asiantaethau, ac maent yn cael eu rhedeg mewn partneriaeth â sefydliadau gan gynnwys BT, LogicaCMG, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Comisiwn Coedwigaeth. Mae dau o'r prosiectau MLG hyn yn cynnig gwasanaethau 'swyddfa gefn' i fudiadau gwirfoddol a busnesau eraill bach a chanolig ym maint.

Mae canolfan alwadau gymunedol Cyswllt Galwadau yn darparu gwasanaeth derbyn galwadau proffesiynol i gwsmeriaid a cheir yno gyfleusterau marchnata ar gyfer y sector gwirfoddol a sefydliadau eraill yng Nghymru a'r DU. Mae'n cynnig gwasanaeth dwyieithog llawn a hynny am gost gystadleuol ac mae'r cyfleusterau'n cynnwys yr offer gorau a diweddaraf. Mae dros **230** o bobl wedi elwa ar yr hyfforddiant a ddarperir, ac mae dros eu hanner wedi llwyddo i ddod o hyd i swydd yn yr ardal.

Mae gwasanaeth cyflogres a gweinyddu Cyswllt Tâl yn cynnig hyfforddiant a phrofiad gwaith o fewn 'sector lefel uwch' busnes a chyllid. Wedi ei leoli ym Mhrestatyn, mae Cyswllt Tâl yn darparu cyfleon hyfforddi mewn gwaith cyflogres, gweinyddu, rheoli goruchwyllo a TGC. Ers sefydlu'r prosiect yng

Ngorffennaf 2001, mae **48** o bobl wedi cael eu derbyn fel hyfforddeion ac mae **60** y cant ohonynt wedi mynd ymlaen i waith tymor hir o fewn y sector, ac mae 10 y cant arall wedi sicrhau swydd yn yr ardal.

Mae Cyswllt Adwerthu yn cynnig cyfle i ennill profiad a chymwysterau galwedigaethol o fewn y sector adwerthu. Mae'r prosiect yn cael ei redeg mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol ac mae'r hyfforddeion yn cael eu lleoli mewn amrywiaeth o siopau, gan gynnwys siopau elusen. Yn ystod y lleoliad mae'r hyfforddeion yn ymgymryd â rôl hollbwysig o fewn y siop ac erbyn diwedd y lleoliad 6 mis, byddant yn alluog i reoli'r siop yn effeithiol.

Mae Cyswllt Gwledig yn brosiect arloesol sy'n cynnig profiad gwaith a hyfforddiant mewn amrywiaeth eang o sgiliau cefn gwlad, ac mae'n cyfrannu at gynnal cymunedau gwledig. Gan weithio mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Menter Coedwigaeth, mae dros **30** o bobl wedi elwa ar gynhwysiant ac mae dros **60** y cant o'r bobl hyn wedi sicrhau swyddi tymor hir mewn ardal wledig. Mae'r hyfforddiant a gynigir yn amrywiol dros ben ac mae'n cynnwys cymwysterau mewn tocio gwrychoedd, dringo coed, arwain cerddwyr ar fynyddoedd, sgiliau gyrru cerbydau oddi ar y ffordd, TGC a llawer mwy.

Cychwynnodd Ysgogydd Cymunedol yn Ionawr 2003, a dyma'r prosiect MLG diweddaraf i gael ei ddatblygu gan CCGC. Mae Ysgogydd Cymunedol yn darparu swyddi go iawn mewn amrywiaeth o brosiectau cymunedol. Mae enghreifftiau o'r grwpiau a mudiadau sydd wedi derbyn hyfforddeion yn cynnwys Grwpiau Cymunedau yn Gyntaf ym Mae Cinnel ac Amlwch, y Sefydliad Datblygu Cymunedau ym Mangor, Mind, NACRO, SOVA, Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy a Medrwn Môn. O'r **10** hyfforddai a ddechreuodd ar y cynllun ym mis Ionawr, mae **8** eisoes wedi dod o hyd i waith.

Cyswllt Adwerthu





3 Nawdd - mwy o grantiau i fwy o brosiectau

Mae CCGC wedi parhau i gyflawni ei ymrwymiad i ddiogelu a chynyddu'r adnoddau sydd ar gael i'r sector. Unwaith eto, rydym wedi dyrannu mwy o grantiau i fwy o brosiectau. Mae **1,154** o brosiectau wedi elwa ar **£9.2** miliwn eleni.

Mae'r cynnydd yn deillio'n rhannol o'r arian y gwnaethpwyd cais amdano o Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r Gronfa Ymddiriedolaeth, a sefydlwyd fel rhan o raglen Cymunedau yn Gyntaf y Cynulliad, a

weinyddir ar ran Rhwydwaith

Cefnogi Cymunedau yn

Gyntaf, yn targedu wardiau dynodedig Cymunedau yn Gyntaf a chymunedau o

ddiddordeb. Bu'r Gronfa yn cefnogi dros **700** o brosiectau cymunedol

gan fuddsoddi **£1.5** miliwn mewn gweithredu cymunedol lleol, gan helpu i adfywio rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

Tua diwedd y flwyddyn gwelwyd sefydlu'r cynllun Ffrydlan, cynllun gwerth **£2.65** miliwn sy'n cael ei gefnogi gan y Gronfa Cyfleodd Newydd. Mae hwn yn addo bod yn ffynhonnell unigryw o nawdd i grwpiau gwirfoddol a chymunedol sy'n ymrwymo i wella'r amgylchedd trwy gyflwyno prosiectau aildddefnyddio, ailgylchu a chompostio arloesol.

Hefyd cynhaliodd CCGC arolwg i weld pa mor fodlon oedd pawb a wnaeth gais am grant yn ystod 2002/2003. Ymatebodd dros 67 y cant o'r mudiadau a oedd wedi derbyn grant, a dywedodd 90 y cant o'r rhain eu bod o'r fam bod gwasanaeth CCGC yn dda/ardderchog.



Isobel Norris a gynhyrnodd dallen ar gyfer pobl ifanc sy'n dioddef o glefyd coeliac (Chi a'ch cymuned)





"Telymau a grewyd gan ddyn gan feddwi am angyllion,"
Pen y Bont ar Ogwr - cofnod cyhoeddus o sgiliau creu
telymau (Chi a'ch cymuned)

Agor drysau/Opening doors

Mae'r cynllun hwn wedi cynnig cyfle cyfartal i bawb trwy ddarparu systemau dolenni clywed i neuaddau pentref i helpu pobl trwm eu clyw i chwarae rhan weithredol ym mywyd eu cymuned. Mae hefyd wedi hyrwyddo dwyieithrwydd a'r diwylliant Cymreig trwy alluogi siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-Gymraeg yn y gymuned i ddod at ei gilydd, diolch i offer cyfieithu symudol. Roedd y cynllun hwn yn cael ei ariannu gan Sefydliad Camelot, a dyrannodd y cynllun **£23,815 i 16** prosiect yn 2002/2003, sef blwyddyn olaf y cynllun.

Canolfannau bro

Mae'r cynllun grant canolfannau bro wedi galluogi pwyllgorau rheoli gwirfoddol i wneud mân waith atgyweirio ac ailwampio i'w hadeiladau. Mae peth o'r gwaith a wnaethpwyd yn cynnwys estyriadau bach i gadw offer y grwpiau sy'n defnyddio'r adeilad, darpariaeth i bobl anabl, gan gynnwys toiledau a rampiau, toeau newydd a mân waith atgyweirio arall. Mae'r cynllun, a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru trwy'r Cynllun Cymunedau Byw, wedi dyrannu **£251,708 i 31** o brosiectau.

Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf

Cymunedau yn Gyntaf yw rhaglen adfywio Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi ei hanelu at y cymunedau rmyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r Cynulliad wedi clustnodi £9m dros dair blynedd i Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf i fudiadau cymunedol sy'n cynnig budd amgylcheddol, cymdeithasol neu ddiwylliannol i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r Gronfa'n cael ei gweinyddu gan CCGC ar ran Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf.

Roedd ceisiadau am arian gan y cynllun yn araf ar y

dechrau, ond yn ystod y flwyddyn gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau a dderbyniwyd ac a gymeradwywyd. Yn ystod y flwyddyn dylfarnwyd cyfanswm o **£1,529,755 i 714** o brosiectau. Mae'r cynllun wedi bod yn boblogaidd iawn gyda grwpiau lleol, ac mae nifer y ceisiadau a dderbyniwyd wedi cynyddu'n sylweddol ers Mawrth 2003.

Enfys

Nod Enfys yw creu mwy o feysydd glas ac mae'n cael ei reoli gan CCGC mewn partneriaeth ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru ac Amgylchedd Cymru. Derbyniodd £7.5m o nawdd cyfatebol gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd ac mae'r gweddill yn cael ei godi o amrywiaeth o ffynonellau eraill gan gynnwys Ewrop.

Yn ystod y flwyddyn, y dechreuwyd dangos diddordeb o ddirif yn y rhaglen a dyrannwyd **£1.77m** arall i saith deg wyth o brosiectau. Roedd y prosiectau'n amrywio'n fawr o ran maint a phwyslais, a llwyddwyd i ddenu ceisiadau o bob rhan o Gymru. Fodd bynnag, mae rhai ardaloedd wedi bod yn fwy parod nag eraill i fanteisio ar y cyfle, ac o ganlyniad mae ymgyrch yn y wasg leol sydd wedi ei hanelu at ardaloedd penodol wedi denu ceisiadau o'r cymunedau hynny. Wirth i ddim y Swyddog Datblygu o fewn y bartneriaeth ennill profiad, mae amrywiaeth eang o brosiectau wedi cael eu sefydlu, gyda nifer yn canolbwyntio ar ailgylchu cymunedol.

I gydnabod hyn ac i wella gallu CCGC i weinyddu cynlluniau sydd o natur fwy cymhleth, mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi rhoi'r gwaith o reoli'r rhaglen ddilynol i bartneriaeth newydd sy'n cynnwys CCGC, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Cylich, rhwydwaith ailgylchu cymunedol Cymru. Cafodd y rhaglen hon, **Ffrydlan**, ei lansio ar ddiwedd Mawrth 2003 a bydd yn ariannu cynlluniau ailgylchu yn y gymuned.

Cwasanaeth casglu gwastraff gardd
CREST Co-operative (Enfys)





BRADLEY VILLAGE HALL

BRADLEY PLAYGROUP
VERVAINE

Vervaine Edwards o Gylch Chwarae Bradley,
Neuadd Bentref Bradley (Canolfannau bro)

Cynllun grantiau iechyd meddwl lleol (prif gynllun) 2002-2005

Yn 2002 - 3, elwodd wyth gwasanaeth datblygu a **38** gwasanaeth lleol ar y swm o **£1,920,000** i barhau i ddatblygu gwasanaethau effeithiol ledled Cymru i fudiadau gwirfoddol lleol, grwpiau defnyddwyr a grwpiau teuluoedd a gofalwyr sy'n ymwneud â materion iechyd meddwl. Gall y gwaith a wneir gan y mudiadau a ariennir gynnwys gwaith annog integreiddio gyda'r gymuned prif ffrwd, gwaith i atal llithro'n ôl ac atal datblygiad problemau iechyd meddwl difrifol, darpariaeth mynediad cyfartal at wasanaethau iechyd meddwl beth bynnag fo lleoliad, oed, rhyw neu hil y claf.

Mae grantiau o dan y rhaglen hon wedi cael eu dyfarnu ar raglen dreigl 3 blynedd sy'n gofalu am gostau refereniw a chraidd. Mae nawdd ar gyfer blynyddoedd 2 a 3 yn amodol ar fonitro ac adrodd boddhaol.

Cynllun grantiau iechyd meddwl lleol (cyllid un-tro)

Am 2002 - 3 yn unig, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi neilltuo **£1** miliwn yn ychwanegol ar gyfer y CGIMLI. Roedd yr arian hwn i gael ei ddefnyddio ledled Cymru i ariannu grantiau bach un-tro hyd at **£30,000** ar gyfer prosiectau a oedd yn cynnwys llety gwell, mynediad i bobl anabl, offer TG, hyfforddiant i wirfoddolwyr / ymddiriedolwyr, cyhoeddiadau, ymchwil, astudiaethau dichonolrwydd, gweithgareddau un-tro, a chyllid pontio ar gyfer gwasanaethau sydd mewn perygl oherwydd diffyg nawdd. Yn y diwedd dyfarnwyd grantiau gwerth **£1,000,000** i chwe deg naw o brosiectau.

Gwasanaethau gwirfoddol lleol

Mae'r cynllun gwasanaethau gwirfoddol lleol yn darparu cyllid craidd i'r **19** cyngor gwirfoddol sirol. Dyfarnwyd cyfanswm o **£2,536,300** i'r CGS i'w helpu i gefnogi, datblygu a chynrychioli grwpiau gwirfoddol a chymunedol lleol ym mhob sir yng Nghymru. Mae'r nawdd hwn wedi eu cynorthwyo i ddarparu **663** o gyrsiau hyfforddi, gan hyfforddi **24,639** o gyfranogwyr, darparu cyngor cyffredinol i **64,340** ymholiadau a chynorthwyo mudiadau lleol i godi dros **£13.5** miliwn trwy eu cymorthfeydd a oedd yn cynnig cyngor ar godi arian.



Canolfan Galw Heibio Smithfield, Llanfair ym Muallt (Straen yng nghefn gwlad)

Cynllun Grantiau Straen yng Nghefn Gwlad

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu nawdd gwerth **£450,000** ar gyfer y cynllun hwn. Mae'n darparu cyllid refereniw i fudiadau gwirfoddol i'w helpu i leddu'r straen a achoswyd neu a ddwysawyd gan argyfwng y clwy traed a genau mewn cymunedau gwledig yng Nghymru. Elwodd pedwar ar hugain o fudiadau ar y cynllun hwn.

MIND Caerfyrddin
(Cynllun grantiau bychain iechyd meddwl)





Ysgol Haf Cyfle ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol (Traws Cymru)

Traws Cymru

Mae Traws Cymru yn cael ei weinyddu gan CCGG ar ran Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm. Nod y cynllun grantiau bach hwn yw hybu gwell dealltwriaeth a chyfeillgarwch rhwng pobl ifanc Cymru trwy gefnogi prosiectau sy'n dod â phobl ifanc at ei gilydd, trwy gyfrwng cyfeon chwaraeon, diwylliannol, y celfyddydau neu amgylcheddol.

Mae'r nawdd grant a ddyrennir yn £2,500 (un ffordd) neu £4,000 (dwy ffordd). Erbyn diwedd Mawrth 2003, roedd 32 o brosiectau wedi derbyn cyfanswm o £76,100.

Gwirfoddoli yng Nghymru

Mae amrywiaeth eang o brosiectau gwirfoddoli o bob rhan o Cymru wedi derbyn £990,779 fel rhan o'r cynllun poblogaidd hwn a sefydlwyd gydag arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Dosbarthwyd arian i 41 o brosiectau newydd a 59 prosiect a oedd yn parhau, ac mae'n cynnwys cefnogaeth i 29 o swyddfeydd gwirfoddoli. Nod y cynllun yw recriwtio gwirfoddolwyr newydd, datblygu arferion gwirfoddoli da, ac annog gweithgarwch mewn ardaloedd lle na cheir gymaint o wirfoddoli.

Swyddfeydd Gwirfoddoli Xtra

Fel rhan o'r Cynllun Cymunedau Byw, dyfarnwyd grantiau gwerth cyfanswm o £748,374 i 29 o swyddfeydd gwirfoddoli yn ystod trydydd blwyddyn y rhaglen dair blynedd. Nod y gronfa yw denu mwy o bobl i gymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol a chymunedol. Mae wedi bod yn gyfle ardderchog i ddarparu gwasanaethau estyn allan mewn sawl rhan o Gymru, sydd o fudd i bobl ifanc a'r henoed, pobl anabl a phobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.



Jayne Edwards a Barbara Trueman o Unique, grwp cefnogaeth ar gyfer pobl traws-rhywiol yn Sir y Fflint (Chi a'ch cymuned)

Chi a'ch cymuned

Mae Chi a'ch Cymuned yn gynllun gwerth £700,000 a ariannwyd gan Gomisiwn y Mileniwm, gyda chefnogaeth y Cynulliad Cenedlaethol. Mae nawdd ar gael i bobl sy'n dymuno lansio prosiectau cymunedol newydd megis gerddi cymunedol, gwefannau gwybodaeth, grwpiau crefft ayb. Eleni, dyfarnwyd £450,727 i 186 o brosiectau.



Parc ac ardal chwarae cymunedol Cymdeithas Cymunedol Hubberston, Aberdaugleddau (Enfys)

4 | Ymddiriedolwyr

Tom Jones, OBE
Margaret Jervis, MBE
Douglas E. Morris

Cadeirydd
Is-gadeirydd
Trysorydd

Mohammed Akteruzzaman, MBE

Sue Barlow

Lydia Bassett

D. Emrys Bowen

Dr. Neil Caldwell

Phil Davies

Eurwen E. Edwards, BEM

Stuart Etherington

David G. Evans

S. Meryl Evans

Catrin Fletcher

John Griffiths

Nerys Hughes, MBE

Robert A. Hutchings

Tom Jones

Tejay de Kretser

Mike Lewis

Ruth Marks

John Meredith, MBE

David Murray

Jane Pagler

Chad Patel

Graham Price

John Puzey

Julian Richards

Barbara Roberts

Keith Roberts

Howard Sinclair

Jaswant Singh, MBE

L. Mair Stephens

George Stokes, MBE

Unigolyn (hyd Tachwedd 2002)

Community Design Gwent (hyd Tachwedd 2002)

Celfyddydau Gwirfoddol Cymru

Cymdeithas Frenhinol Amaethyddol Cymru

Unigolyn

Cymdeithas Alzheimer

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych

Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (NCVO)

Unigolyn

Cymorth i Ferched Cymru

Cefnogaeth Gartref Cymru

Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol

Unigolyn

Unigolyn (hyd Tachwedd 2002)

Grwp Mynediad Conwy

Cymdeithas Cynghorau Gwirfoddol Sirol Cymru

Sefydliad Lloyds TSB dros Loegr a Chymru

Chwarae Teg

Eglwys Dewi Sant (hyd Tachwedd 2002)

Gofal Henoed Gwent

Ymddiriedolaeth Tai Opportunity

Unigolyn

Cymdeithas Addysg y Gweithwyr

Fforwm Tai Cymru

Gweini

Cymorth i Ddiodefwyr Sir y Fflint

Oxfam yng Nghymru

Mencap Cymru (hyd Ebrill 2002)

Race Equality First

Cynulliad Merched Cymru

Gwasanaeth Cynghori Eglwysi Cymru (hyd Tachwedd 2002)

Dr. Tim Stowe	Dolen Amgylchedd Cymru
Fran Targett	Cymorth ar Bopeth Cymru
Derek Walker	Forwm LGB Cymru
Catriona Williams	Plant yng Nghymru
Wendy Williams, MBE	Cymdeithas Chwaraeon Cymru
Judy Ling Wong, OBE	Rhwydwaith Amgylchedd Pobl Ddu (hyd Mai 2002)
Pauline Young	Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro
Mohammed Yusuf	Cyngor Ffoaduriaid Cymru (hyd Tachwedd 2002)

Arsyllwyr

Margaret Thorne, OBE, DL	Cymdeithas Cyngorau Gwirfoddol Sirol Cymru
Neil Surman	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Helen Thomas	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Graham Williams	Llywodraeth Cynulliad Cymru

Ymgynghorydd cyfreithiol

Hanif Bhamjee	Crowley & Company
---------------	-------------------

Archwilwyr

KPMG LLP

Bancwyr

Barclays Bank plc

Ysgrifennydd Cwmni

Jan Bish

Hoffai CGGC ddiolch i'r sefydliadau canlynol am eu cefnogaeth

Sefydliad Cymorth yr Elusennau	Yr Ymddiriedolaeth Cyfryngau
Cyngor Cefn Cwlad Cymru	Comisiwn y Mileniwm
Yr Adran Addysg a Sgiliau	Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm
Yr Adran Datblygu Rhyngwladol	Y Ganolfan Wirfoddoli Genedlaethol
Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa)	Y Gronfa Cyfleoedd Newydd
Yr Undeb Ewropeaidd	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Yr Ymgyrch Roi	Awdurdod Datblygu Cymru
Cronfa Dreftadaeth y Loteri	Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Sefydliad Lloyds TSB dros Loegr a Chymru	Cyswilt Gwaith



EUROPEAN UNION
European Social Fund
YR UNDDEB EWROPEAIDD
Deddfu Llywodraeth Ewrop



This project is part
funded by the
European Regional
Development Fund



Llywodraeth Cymru
Welsh Assembly Government

5 Crynodeb o'r mantolenni ariannol

Mae'r crynodeb hwn o fantolenni ariannol yn grynodeb o wybodaeth a godwyd o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifonstatudol. Mae'n bosibl nad ydynt yn cynnwys digon o wybodaeth i roi dealltwriaeth lawn o gyflwr ariannol yr Elusen. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, dylid cyfeirio at yr cyfrifon blynyddol llawn, adroddiad yr Archwilywyr ar y cyfrifon hyn ac adroddiad yr Ymddiriedolaeth. Mae copiau o'r rhain ar gael oddi wrth S] Bish, Ysgrifennydd y Cwmni.


Cymeradwywyd y cyfrifon blynyddol ar 9 Hyfref 2003 ac maent wedi eu hanfon at y Comisiwn Elusennau a'r Cofrestrwydd Cwmnïau. Mae'r cyfrifon wedi cael eu harchwilio gan archwilydd cymwys, KPMG LLP, sydd wedi rhoi barn archwilio ddiamed ac nad oedd yn cynnwys datganiad sy'n ofynnol o dan Adran 237 (2) a (3) Deddf Cwmnïau 1985.

Mantolen o weithgarwch ariannol am


y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Resicted Cyfyngedig £	Cyfanswm Cronfeydd 2003 £	Cyfanswm Cronfeydd 2002 £
Derbyniadau				
Rhoddion	-	-	-	233,333
Grantiau	835,417	11,327,582	12,162,999	15,937,120
Tanysgriffiadau	30,692	-	30,692	30,546
Incwm arall	1,205,450	604,945	1,810,395	1,850,587
Llog a dderbyniwyd ac incwm buddsoddiadau eraill	38,761	185,964	224,725	143,513
Cyfanswm derbyniadau	2,110,320	12,118,491	14,228,811	18,195,099
Gwariant				
Yn Uniongychol i Elusennau	29,786	11,307,042	11,336,828	8,412,416
Grants Eraill	1,636,116	4,098,908	5,735,024	4,489,842
Rheoli a gweinyddu'r elusen	316,665	22,918	339,583	243,235
Cyfanswm a wariwyd	1,982,567	15,428,868	17,411,435	13,145,493
(Alloion)/ mewnlion net am y flwyddyn	127,753	(3,310,377)	(3,182,624)	5,049,606
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	62,283	(62,283)	-	-
(Colledion)/enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau	(10,205)	-	(10,205)	5,215
Symudiad net mewn cronfeydd	179,831	(3,372,660)	(3,192,829)	5,054,821
Balansau a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2002	1,032,465	6,442,574	7,475,039	2,096,834
Gwireddu cronfa wrth gefn a ailbrisiwyd	-	-	-	323,384
Balansau a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2003	1,212,296	3,069,914	4,282,210	7,475,039


Enillion
(Cronfeydd Anghyfyngedig)




Enillion
(Cronfeydd Cyfyngedig)



Gwariant
(Cronfeydd Anghyfyngedig)



Gwariant
(Cyfyngedig)



Mantolen

ar 31 Mawrth 2003

	2003		2002	
	£	£	£	£
Asedau sefydlod		1,198,111		1,255,163
Asedau cyfredol				
Buddsoddiadau	76,269		86,474	
Dyledwyr a rhagdaliadau	208,298		199,741	
Arian yn y banc ac mewn llaw	<u>3,959,446</u>		<u>7,144,000</u>	
	<u>4,244,013</u>		<u>7,430,215</u>	
Credydwyr: symiau'n ddyledus o fewn un flwyddyn	(1,159,914)		(1,210,339)	
Asedau cyfredol net		3,084,099		6,219,876
Asedau net		4,282,210		7,475,039
Cronfeydd wrth gefn				
Cronfeydd cyfyngedig - mewn gwarged		3,533,212		6,554,034
Cronfeydd cyfyngedig - balansau mewn diffyg		(463,298)		(111,460)
Cyfanswm cronfeydd cyfyngedig		<u>3,069,914</u>		<u>6,442,574</u>
Cronfeydd anghyfyngedig - cyffredinol	854,296		762,465	
Cronfeydd anghyfyngedig - dynodedig	<u>358,000</u>		<u>270,000</u>	
Cyfanswm cronfeydd anghyfyngedig		<u>1,212,296</u>		<u>1,032,465</u>
		<u>4,282,210</u>		<u>7,475,039</u>

Datganiad yr archwilwyr annibynnol i aelodau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (Cyfyngedig trwy Warant)

Rydym wedi archwilio'r crynodeb o'r mantolenni ariannol a amlinellir ar dudalennau 28 i 30 sy'n gyfrifon anstatudol a baratowyd i'w cynnwys yn Adolygiad Blynyddol yr Elusen. Mae'r datganiad hwn wedi ei baratoi'n benodol ar gyfer ymddiriedolwyr yr elusen, fel corff, yn unol a telerau ein llythyr derbyn dyddiedig 20 Mawrth 2003. Gwnaethpwyd y gwaith hwn er mwyn ein galluogi i ddatgan yn yr adroddiad y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu gwneud yn ol telerau derbyn y gwaith ac i ddim diben arall. I'r graddau hynny a a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb dros unrhyw un heblaw'r elusen ac ymddiriedolwyr yr elusen, fel corff, am ein gwaith, am y datganiad hwn, na'r casgliadau a fynegir.

Barn

Yn ein barn, mae'r crynodeb o'r mantolenni ariannol yn gydnaws a'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003.

KPMG LLP, Cyfrifwyr Siartredig, Archwilwyr Cofrestredig
Ty Marlborough, Fitzalan Court, Caerdydd. 9 Hydref 2003

Cyfrifoldebau priodol yr ymddiriedolwyr a'r archwilwyr

Mae'r bwrdd yn gyfrifol fel ymddiriedolwyr a chyfarwyddwyr am baratoi'r crynodeb o'r mantolenni ariannol. Rydym wedi cytuno i adrodd i chi, yr ymddiriedolwyr, ar eu cysondeb gyda'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon statudol, yr adroddwyd arnynt gennym ar 9 Hydref 2003. Buom hefyd yn darllen gwybodaeth arall a oedd wedi ei chynnwys yn y crynodeb o'r mantolenni ariannol ac wedi ystyried y goblygiadau ar gyfer ein hadroddiad os byddwn yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysonderau perthnasol yn y crynodeb o'r mantolenni ariannol.

Sail barn

Rydym wedi gwneud y gwaith a ystyrir gennym fel bod yn angenrheidiol i ganfod a yw'r crynodeb o'r mantolenni ariannol yn gydnaws a'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon statudol y cawsant eu paratoi ar eu cyfer.